**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (MAN I'R DWYRAIN O GYLCHFAN BRYNICH I FAN I'R DE-DDWYRAIN O LANHAMLACH, POWYS) (TERFYN CYFLYMDER 50 MYA) 202-**

**DATGANIAD O'R RHESYMAU**

Comisiynwyd Arfarniad Pontio Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru ('WelTAG') Cam 2 ar gyfer Cynllun D2AP yr A40 Millbrook. Roedd hyn yn dilyn argymhelliad y Panel Adolygu Ffyrdd y gallai'r Cynllun fynd yn ei flaen yn amodol ar ddatblygiad manylach a thystiolaeth ei fod yn gydnaws â blaenoriaethau polisi cyfredol.

Roedd yr Achos dros Newid fel a ganlyn:

- Yr angen i wella diogelwch ar y ffyrdd: Mae gan y darn hwn o ffordd record diogelwch gwael. Mae nifer o wrthdrawiadau wedi digwydd yn gysylltiedig â modurwyr yn defnyddio'r mannau croesi ar hyd y llwybr. Mae yna hefyd anghysondeb rhwng y cyflymder dylunio (50 mya) a'r terfyn cyflymder gwirioneddol (70 mya) ar y darn hwn o'r ffordd.
- Pwysigrwydd cynnal diogelwch a mynediad: Er bod yr A40 yn gefnffordd allweddol rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn Ne Powys, mae ganddi hefyd swyddogaeth leol iawn o ran darparu mynediad uniongyrchol i eiddo a ffermydd ar hyd y rhan ddeuol. Mae gwella diogelwch i'r defnyddwyr hyn yn bwysig o ystyried y cyflymderau cymharol ar yr A40. Mae cynllun presennol y ffordd yn is na'r safon, er enghraifft, nid yw rhai pwyntiau mynediad yn alinio â'r mannau croesi, gan arwain at symudiadau gwrthlif i gyrraedd eiddo.
- Yr angen i wella diogelwch cerddwyr a beicwyr wrth gylchfan Brynich: Roedd yr adolygiad o'r dystiolaeth wedi tynnu sylw at rywfaint o ddefnydd, yn enwedig rhwng y parc carafanau ar gamlas a'r angen i wella diogelwch cymharol i gerddwyr a beicwyr.

**THE A40 TRUNK ROAD (EAST OF BRYNICH ROUNDABOUT TO SOUTHEAST OF LLANHAMLACH, POWYS) (50 MPH SPEED LIMIT) ORDER 202-**

**STATEMENT OF REASONS**

A Welsh Transport Appraisal Guidance ('WelTAG') Stage 2 Bridging Appraisal for the A40 Millbrook D2AP Scheme was commissioned. This followed the recommendation from the Roads Review Panel that the Scheme could proceed subject to more detailed development and evidence of its alignment with current policy priorities.

The Case for Change was as follows:

- A need to improve road safety: This stretch of road has a poor safety record. A number of collisions have taken place linked with motorists using the crossovers along the route. There is also a mismatch between the design speed (50mph) and the actual speed limit (70mph) on this stretch of road.
- Importance of maintaining safety and access: Whilst the A40 is a key east-west trunk road in Southern Powys, it also has a very localised function in providing direct access to properties and farms along the dual section. Improving safety for these users is important given the relative speeds on the A40. The existing road layout is substandard, for example, some access points do not align with the crossovers, resulting in contraflow movements to access properties.
- A need to improve pedestrian and cyclist safety at Brynich roundabout: The evidence review pointed to some use particularly between the caravan park and the canal and a need to improve relative safety for pedestrians and cyclists.